


Awtistiaeth



(Ffynhonnell: Phoenix Autism Cente, 2026).



(Ffynhonnell: University of Hawai'i at Manoa, 2026).



(Ffynhonnell: Fawehinmi, 2024).

Casgliad

I gloi, cyflwynwyd esboniad clir o ffyrdd y mae awtistiaeth yn cael ei nodi a'i ddiagnosisio, ochr yn ochr â dadansoddiad o effaith rhai rhwystrau. Yn ogystal, cynhwysir ymchwil fanwl ar y defnydd o IDP fel un strategaeth gymorth i blant â'r digagnosis hwn.

Cyflwyniad

Mae awtistiaeth yn gyflwr datblygiadol sy'n effeithio ar sut mae unigolion yn cyfathrebu ac yn rhwngweithio ag eraill, ochr yn ochr â phrofi sensitifrwydd synhwyraidd, anawsterau cymdeithasol, ac ymddygiadau cyfyngedig. Mae'r anawsterau hyn yn gysylltiedig â lefelau uwch o straen, gorbryder ac iselder, a all effeithio'n negyddol ar berfformiad academaidd (Llywodraeth Cymru, 2025). Mae'r National Institute of Mental Health (d.d.) yn datgan, y gellir adnabod awtistiaeth ar unrhyw gyfnod o fywyd; fodd bynnag, mae'n cael ei ddosbarthu fel anhwylder datblygiadol oherwydd bod arwyddion fel arfer yn dod i'r amlwg o fewn y ddwy flynedd gyntaf o ddatblygiad. Yn olaf, cred NHS (2019) mae tua 1% o'r boblogaeth gyffredinol wedi'i nodi fel un sydd â chyflwr sbectrwm awtistiaeth, gydag achosion yn cael ei amcangyfrif yn 2% ymhlith dynion a 0.3% ymhlith menywod. Fodd bynnag, mae awtistiaeth mewn menywod yn cael ei ystyried yn eang wedi'i dan-ddiagnosisio, gan ei fod yn aml yn cael ei anwybyddu neu ei gam-adnabod, yn rhannol oherwydd camsyniadau a gwahaniaethau yn y ffordd y gall awtistiaeth fod yn bresennol mewn menywod o'i gymharu â dynion

Diagnosis

Hawlia Manikiza (2020) "*Early recognition and intervention ensures that children can receive the most appropriate support*". Felly, mae Dr Barbera (2024) yn cytuno bod awtistiaeth o tua dwy oed; fodd bynnag, mae symptomau'n aml yn cael eu hanwybyddu yn ystod plentyndod cynnar, gan arwain at llawer o unigolion yn cael diagnosis yn ddiweddarach mewn bywyd. Awgryma Nip in the Bud (2026), er mwyn gwneud diagnosis, mae rhaid i'r cyflwr gael effaith sylweddol ar weithrediad dyddiol ac ansawdd bywyd, gyda thystiolaeth yn bresennol yn ystod datblygiad cynnar. Fodd bynnag, mewn plant mwy abl, efallai na fydd gwahaniaethau mewn cyfathrebu cymdeithasol yn dod yn amlwg tan yn ddiweddarach mewn bywyd. Yn anffodus, mae amseroedd aros am ddiagnosis yn wahanol ledled y DU. Yng Nghymru, mae cynllun gweithredu'r llywodraeth yn gosod targed o 26 wythnos rhwng atgyfeirio ac asesu ar gyfer plant. Er gwaethaf, canllawiau awdurdodau iechyd, mae aros am asesu yn aml yn llawer hirach na'r disgwyl, gyda rhai unigolion yn aros misoedd neu hyd yn oed flynyddoedd (National Autistic Society, 2026b). Yn ôl National Autistic Society (2026c), mae asesiad awtistiaeth yn cynnwys casglu gwybodaeth fanwl am unigolyn i benderfynu a ydynt yn awtistig ac i nodi anghenion cymorth. Gall y broses ddigwydd dros sawl apwyntiad, gydag arsylwadau ar draws gwahanol leoliadau fel cartref, ysgol, a chanolfan asesu yn cael eu gwneud gan y tîm arbenigol. Yna, mae sut mae asesiad yn cael ei gynnal yn amrywio yn ôl awdurdod lleol, ond mae canllawiau awtistiaeth yn nodi y dylai pob ardal ddefnyddio tîm amlddisgyblaethol i gwblhau asesiadau diagnostig. Gan gynnwys paediatregydd a seicolegydd addysg (National Institute for Health and Care Excellence (NICE), 2026a). Yn ôl NICE (2026b) mae'r canllawiau yn cynghori bod angen i weithwyr proffesiynol gymhwyso eu barn broffesiynol wrth benderfynu a ddylid cyfeirio plentyn i'w asesu ac yn anffodus, dyma le mae'n mynd o'i le gan nad oes gan y rhan fwyaf o 1-1 y profiad na'r cymwysterau. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dibynnu ar fodel meddygol i adnabod y plant hyn (Smeets a Roeleveld, 2016).

Rhwystrau

Mae ymchwydd emosiynol yn aml yn digwydd mewn mannau gorlawn, amgylcheddau swnllyd, neu sefyllfaoedd lle mae emosiynau yn anodd eu mynegi ar lafar, gan arwain at grio, sgrechian, neu hyd yn oed hunan-niweidio (Yalim a Mohamed, 2023; National Autistic Society, 2026d). Yn ogystal, hawlia National Autistic Society (2026e) mae unigolion awtistig yn ychwanegu at drefn, defodau a chynllunio sy'n helpu i reoli straen trwy ddarparu rhagweladwydd a strwythur, ond gall yr arferion hyn ddod mor anhyblyg fel bod newidiadau annisgwyl yn achosi gofid sylweddol. Myrna Doyle (2025) "*54% of autistic students saying the worst thing about school is having teachers who do not understand them*". Mae cynorthwyrwyr addysgu profiadol yn cyfrannu strategaethau effeithiol a gafwyd o rolau blaenorol, yn deall pryd i weithredu'n annibynnol. Ond, yn anffodus, mae llawer o blant agored i niwed yn derbyn cefnogaeth 1:1 gan gynorthwyrwyr sydd heb hyfforddiant neu baratoi digonol (Key Skills Education, 2026). Noda Autistic Society (2026f), gall hyn gynnwys ymddygiadau fel curo pen yn erbyn y llawr neu arwynebau eraill, tynnu gwallt, neu binsio. "Nearly 70% of autistic individuals display the "crisis behaviors" associated with meltdowns" (Soden *et al.*, d.d.). Yn ogystal, hawlia Heft (2021) mae ymchwil wedi archwilio patrymau ymddygiad a strategaethau ymyrraeth ar gyfer disgyblion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth sy'n arddangos ymddygiadau heriol. Dangosir bod yr ymddygiadau hyn yn tarfu ar eu dysgu eu hunain ac, ar adegau, dysgu eraill yn yr ystafell ddosbarth

Strategaeth – IDP

Yn ôl National Autistic Society (2026g), mae'r IDP yn amlinellu anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc ac yn esbonio'n glir y gefnogaeth sydd ei angen i ddiwallu'r anghenion hyn ar draws addysg, gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, ac unrhyw asiantaethau eraill sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth. Yna, mae'r IDP yn ddogfen statudol sy'n manylu ar anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc, y cymorth sydd ei angen i fynd i'r afael â nhw, a'r canlyniadau y maent yn anelu at eu cyflawni (Snap Cymru, d.d.).

Manteision IDP:

Mae IDP yn cofnodi gwybodaeth allweddol am y disgybl, cynnwys barn gan y plentyn, rhieni neu ofalwyr, a gweithwyr proffesiynol, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn, sut orau i'w gefnogi nawr ac yn y dyfodol, beth sy'n effeithiol, a beth sydd ddim (Cyngor Dinas Casnewydd 2026). Yn ogystal, dylai ymarferwyr wrando ar a chynnwys safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r ddau riant a'r plentyn neu'r person ifanc, cynnal agwedd gadarnhaol a chynhwysol, a darparu gwybodaeth a chefnogaeth glir fel y gall rhieni gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau a chanlyniadau sy'n gysylltiedig ag addysg eu plentyn (Pembrokeshire Parent Partnership, 2025). Gall hyn ddigwydd wrth ddatblygu amgylchedd ysgol sy'n gyfeillgar i awtistiaeth, dechreuoch trwy greu cynllun clir a lliwiau tawl yn y dosbarth (McDonnell, 2025).

Anfanteision IDP:

Awgryma Lucas *et al.* (2023) mae mesurau arbed costau ysgolion mewn ymateb i'r costau byw cynyddol yn effeithio'n uniongyrchol ar brofiadau dysgu disgyblion. Felly, mae gwario llai ar adnoddau, darpariaeth arbenigol a chymorth wedi'i dargedu wedi gadael llawer o uwch arweinwyr yn bryderus ynghylch diwallu anghenion y plant. At hyn, roedd rhwystredigaeth ymhlith rhai rhieni a ddywedwyd y byddai'r broses ar-lein, pan nad oedd modd cyflwyno hyn mewn rhai ardaloedd. Roedd yna hefyd rai pryderon ynghylch sut y byddai rhieni â llythrennedd digidol gwael a fynediad cyfyngedig at galedwedd, fel cyfrifiaduron, yn ymdopi ac a fyddai'n rhaid i ysgolion gymryd cyfrifoldeb am eu galluo i gael mynediad at IDPs ar-lein (Dr Holtom a Dr Lloyd-Jones, 2014).